

Hydref 2018

Gwella Cartrefi, Newid Bywydau

## Gadewch i ni gael gwared â'r cowbois yng Nghymru!



**Yn ystod yr hydref eleni rydym yn ymgyrchu i godi ymwybyddiaeth o adeiladwyr cowboi, sgamwyr carreg drws a gwerthwyr anonest sy'n targedu pobl hŷn fregus.**

Amcangyfrifir fod 150,000 o bobl yng Nghymru yn dioddef oherwydd twyllwyr bob blwyddyn. Yn ôl Tîm Sgamiau Safonau Masnach Cenedlaethol, mae perchnogion cartrefi - 85% ohonynt yn bensiynwyr - yn colli hanner biliwn o bunnau bob blwyddyn, oherwydd fod adeiladwyr cowboi yn benodol yn targedu pobl hŷn a chartrefi sy'n amlwg mewn cyflwr gwael.

Ym mis Medi, unodd Care & Repair Cymru gyda'r Tîm Sgamiau a Phartneriaeth Cymru yn erbyn Sgamiau mewn ymgais i gael gwared â'r cowbois, twyllwyr a sgamwyr o Gymru.

Fe wnaethom deithio ar draws Cymru i godi ymwybyddiaeth am gynllun Cyfeillion yn erbyn Sgamiau, a gynhelir ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig i rymuso cymunedau i gymryd safiad.

"Dim adeiladwyr yw adeiladwyr cowboi, twyllwyr ydyn nhw" meddai'r Tîm Sgamiau, a dyna pam ein bod eisiau i chi ymuno â'r cynllun, rhoi'r gair ar led a pheidio gadael unrhyw le i droseddwyr fanteisio ar bobl fregus.

Parhau ar dudalen 2

## TU MEWN...

Pob Ceiniog yng Nghymru yn Cyfrif

Dyblu eich arian ar gyfer y Nadolig

Marciau Uchaf i Ddyn a Fan y Fro

## Parhad o dudalen 1

Mae gennym neges syml i bobl hŷn yr hydref hwn. Peidiwch â syrthio amdano. Edrychwch am arwyddion sicr adeiladwyr cowboi ac os ydych mewn unrhyw amheuaeth, dywedwch na cwrtais ond cadarn.”

Chris Jones, Prif Swyddog Gweithredol Care & Repair Cymru

Gadewch i ni helpu pobl fel Josephine, 75 oed, o Gaerdydd a fyddai wedi gwneud unrhyw beth i gael drws blaen newydd ac a dalodd £2,000 i gwmni diegwyddor yn hytrach na'r £600-800 y dylai fod wedi ei gostio. Arweiniodd y sgam yma at gyfres o ddigwyddiadau trychinebus, gyda Josephine wedi colli ei chynilon, mewn dyled, yn methu talu i drwsio boeler ac yn ceisio byw heb wres na dŵr poeth yn y gaeaf. Diolch byth, gallodd ein gweithiwr achos helpu Josephine i gael mynediad i fudd-daliadau hollbwysig a chael boeler newydd fel rhan o gynllun Nyth Llywodraeth Cymru.

I helpu pobl hŷn i ddod o hyd i grefftwr y gallant ymddiried ynddo ac sy'n deall eu hanghenion, rydym yn gweithio i ddatblygu siarter ansawdd swyddogol i gontractwr Trwsio gyda Gofal diolch i gyllid gan Sefydliad Meddygol Dunhill.

Yn y cyfamser, edrychwch, rhannwch a siaradwch am ein fideo **Dywedwch Na:** <https://bit.ly/2OFWJHo> a dod yn Gyfeilion yn erbyn Sgamiau: <https://www.friendsagainstscams.org.uk>

## Cyngor Da

### Sut i adnabod cowboi

Mae'n anodd gwybod pwy sy'n adeiladwyr cowboi a gwerthwyr twyllodrus. Dydyn nhw ddim yn clymu eu ceffyl tu allan a'ch cyfarch gyda "howdi partner" serchus. Ond mae rhai arwyddion y gallwch edrych amdanynt:

- 1 Byddant yn eich ffonio ar hap neu'n cyrraedd yn annisgwyl ar eich garreg drws.
- 2 Byddant yn aml yn cynnig gwneud tasg "am arian parod", yn gofyn am daliad ymlaen llaw a hyd yn oed y taliad llawn.
- 3 Ni fyddant yn rhoi dyfynbris ysgrifenedig manwl i chi (rhywbeth y mae gennych hawl iddo!)
- 4 Ni fyddant yn dangos unrhyw beth i brofi pwy ydynt na geirda dilys.

## Dyblu eich arian ar gyfer y Nadolig

Gall y gaeaf fod y tymor anoddaf i bobl hŷn, gyda tua 2,000 o bobl yng Nghymru yn marw bob blwyddyn oherwydd yr oerfel. Am yr ail flwyddyn o'r bron, buom yn ddigon ffodus i gael ein dewis i gymryd rhan yn **Her Nadolig Big Give 2018**, ymgyrch arian cyfatebol fwyaf y Deyrnas Unedig sy'n dyblu pob punt a godir.

Byddwn yn defnyddio'r her i godi arian ar gyfer ein **Cronfa Caledi Ymladd Tlodi Tanwydd** sy'n rhoi ffynhonnell ychwanegol o help i'r rhai y mae oerfel yn effeithio arnynt. Eleni, rydym yn benderfynol i godi £12,000, gan drechu cyfanswm y llynedd o £8,000 mewn cyfraniadau ac addewidion ar-lein.

Y llynedd gallasom helpu 25 o bobl ledled Cymru yn cynnwys Mrs Stephenson, sy'n 76 oed: "Pan ydych mor hen â fi, mae cadw'n gynnes yn wirioneddol bwysig. Os wyf yn oeri, rwyf yn mynd yn dost a'r risg yw y byddaf yn gorfod mynd i ysbyty. Pan gollais lechi oddi ar to fy nghartref y llynedd, daeth Gofal a Thrwsio o hyd i'r arian i dalu am y gwaith. Mae gen i nawr do newydd, ystafell wely hyfryd dwym a sych ac rwy'n hapus iawn."

Bydd cyfraniadau a wneir rhwng canol dydd 27 Tachwedd a 4 Rhagfyr os cânt eu rhoi drwy [www.thebiggive.org.uk](http://www.thebiggive.org.uk).

**Felly, os ydych yn ystyried rhoi anrheg Nadolig i ni, cyfrannwch ar-lein a dyblu eich arian os gwelwch yn dda.**

**Y LLYNEDD FE  
WNAETHOM...**

**35,000**  
ymweliad cartref gan  
Gofal a Thrwsio

Gwerth  
**£11.5m** o waith  
atgyweirio gan Gofal a Thrwsio

# EIN PROSIECTAU AC YMGYRCHOEDD



## Marciau Uchaf i Ddyn a Fan y Fro

Mae Gofal a Thrwsio Caerdydd a'r Fro wedi sefydlu **gwasanaeth Dyn a Fan**, partneriaeth lwyddiannus tu hwnt gyda Chyngor Bro Morgannwg sy'n darparu ymateb cyflym ar gyfer addasu cartrefi. Yn rhyfeddol, dywedodd 100% o gleientiaid eu bod yn teimlo'n llawer mwy diogel yn eu cartrefi a byddent yn ei argymhell i eraill.

Fel rhan o'r gwasanaeth mae tasgmon a chymhorthydd therapydd galwedigaethol yn ymweld â chleientiaid gyda'i gilydd, gan asesu eu hanghenion a gwneud mân welliannau yn y fan a'r lle - megis gosod canllawiau ar risiau - mewn ymgais i ddileu'r angen am ymweliadau dilynol.

Mae hyn yn golygu gwasanaeth cyflymach a mwy effeithlon o ran cost, ac mae'r math o ofal trugarog ac urddasol o fewn y gymuned rydym ei angen i helpu galluogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain yn hirach.

## Stori Andrew

Pan gafodd Andrew, 69 oed, ddamwain ffordd yn 2017 fe dorrodd ei goes yn ddrwg a bu'n rhaid iddo aros yn yr ysbyty am bedair wythnos. Pan ddychwelodd adref, daeth yn amlwg fod Andrew yn cael problemau'n mynd i fyny a lawr y grisiau.

Dridiau wedyn, ymwelodd ein tasgmon gydag ef a gosod canllaw grisiau pan oedd yno. Flwyddyn yn ddiweddarach ac mae Andrew'n teimlo'n llawer mwy diogel yn ei gartref, yn arbennig rhag risg syrthio wrth fynd i fyny a lawr y grisiau.

Dywedodd Andrew: "Mae fy ngwraig a finnau wrth ein bodd gyda'r gwasanaeth. Roedd y staff yn gwrando arnon ni a bob amser yn barod i helpu ac yn gwrtais, a chafodd y gwaith ei wneud yn broffesiynol gydag unrhyw annibendod yn cael ei glirio".


**17,000**

o addasiadau cartref ledled Cymru



Helpu i sicrhau gwerth

**£6.5m** o fudd-daliadau nad oedd yn cael eu hawlio



**130**

galwad y dydd i Gofal a Thrwsio

# CROESAWU HERIAU NEWYDD

## Her Rhestr Fwced yn Mynd yn Fudr

Arwres Her Rhestr Bwced y mis hwn yw Charlie Powell, cydlynnydd ein Prosiect Attic. Gan ffeirio llwch am fwd, dywedodd Charlie wrthym: "Roedd hyn yn rhywbeth yr oeddwn bob amser wedi bod eisiau ei wneud ond erioed wedi bod â'r plwc. Felly es ati drwy gropian rhwng rhwystrau ym mwd yr hydref, siglo ar draws bariau mwnci, dringo rhwydi cargo deulawr a waliau 'arwr' deg troedfedd, y cyfan heb fawr ddim nerth yn rhan uchaf fy nghorff."



Cwblhaodd Charlie yr her a chodi £350 ar gyfer Cronfa Caledi Gofal a Thrwsio.

**Da iawn ti Charlie, roeddem yn gwybod y gallet ei wneud!**

Os hoffech gymryd yr Her Rhestr Bwced ar gyfer Gofal a Thrwsio, ffoniwch Sheleagh, ein swyddog codi arian ar **029 2010 7580**.

## Pob Ceiniog yng Nghymru yn Cyfrif



Er mai Cymru sydd â'r nifer isaf o filiynwyr yn y Deyrnas Unedig, mae'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru yn dangos fod 60% ohonom yn cyfrannu'n rheolaidd at elusennau - cyfradd uwch nag unrhyw le arall yn y Deyrnas Unedig. Felly, er y gallwn fod yn dlawd o ran miliynwyr, rydym yn gyfoethog mewn haelioni.

Bob dydd, ac ym mhob rhan o Gymru, mae pobl yn rhoi miloedd o bunnau at elusennau yn cynnwys busnesau fel Siop Gigydd Oriol Jones yn Nhreganna, Caerdydd. Gan godi £171 yn y flwyddyn ddiwethaf, dywedodd Oriol y perchennog: "Rydym yn hapus i annog ein cwsmeriaid i gefnogi elusen Gymreig sy'n gwneud cymaint o wahaniaeth i bobl hŷn."

## Mae pob ceiniog Gymreig yn cyfrif!

Os hoffech chi godi arian ar gyfer Care & Repair Cymru neu'n gwybod am fusnes bach, fel Siop Gigydd Oriol Jones a hoffai nodd elusen, yna cysylltwch â Sheleagh, ein swyddog codi arian, ar **029 2010 7580**.

## Ymunwch â Chyfeillion Gofal a Thrwsio a'n helpu i gadw pobl hŷn yn ddiogel, cynnes ac annibynnol

**Wyddech chi fod Gofal a Thrwsio yn elusen gofrestrdig?**

Gwnawn lawer mwy i bobl yn ein cymuned nag mae llawer yn sylweddoli. Gallwn gyflwyno'r rhan fwyaf o'n gwasanaethau'n hollol rad ac am ddim diolch i gefnogaeth hael ein cyfranwyr a'n cyllidwyr.

P'un ai ydych chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod wedi manteisio o'n cefnogaeth, neu ddim ond eisiau helpu - gwahodddwn chi i ddod yn Gyfaill Gofal a Thrwsio.



Gallwch gofrestru yn [www.careandrepair.org.uk](http://www.careandrepair.org.uk) neu gysylltu â [Sheleagh.llewellyn@careandrepair.org.uk](mailto:Sheleagh.llewellyn@careandrepair.org.uk) a gofyn am ffurflen drwy'r post.

Ffoniwch ni ar **0300 111 3333** neu e-bost [enquiries@careandrepair.org.uk](mailto:enquiries@careandrepair.org.uk)  
[www.careandrepair.org.uk](http://www.careandrepair.org.uk)

LLOYDS BANK FOUNDATION  
England & Wales

ddod o hyd i ni ar



Mae Care & Repair Cymru yn elusen gofrestrdig: Rhif elusen 1163542